# Ymateb y rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** **Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**Dyddiad cwblhau:** **Tachwedd 2022**

**Cyfeirnod y ddogfen:** **3188A2022**

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Cadarnhau a gweithredu ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad perfformiad y panel allanol | Na | Trafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal hefo CLlLC ynghylch yr amserlen posibl a thrafodaeth wedi ei chynnal yn y Grŵp Llywodraethu mewnol.<br><br>Bwriad i gynnal trafodaeth bellach yn y Grŵp Llywodraethu wedi bod trwy'r broses hunan asesu ar gyfer 22/23 er mwyn cyflwyno argymhellion ac amserlen arfaethedig i'r Tîm Arweinyddiaeth | Gorffennaf 2023 | Dewi W. Jones |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer cwblhau’r asesiad gan banel. | | |
| | • Cwblhau’r broses o baratoi a mabwysiadu Strategaeth Cyfranogi | ie | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Cyfranogiad ym mis Ionawr 2023 er mwyn sicrhau mewnbwn y cyhoedd.<br>Adroddir ar ganlyniadau’r ymgynghoriad i'r Cabinet ar 14/02 gan ofyn iddynt argymell y strategaeth i’r Cyngor Llawn. Mae bwriad cyflwyno’r Strategaeth i gyfarfod y Cyngor llawn ar 2il o Fawrth, 2023 | Mawrth 2023 | Vera Jones/ Iwan Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Diweddariad ar y Cynllun Deisebau | ie | Bu I'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun Deisebau yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr 2022. Rydym nawr wrthi’n mynd drwy’r camau ymarferol ar gyfer trefniadau gweinyddu cyn cyhoeddi ar y safle we. Mae’r Cynllun yn ymarferol weithredol | Rhagfyr 2022 | Vera Jones |
| | • Diweddariad ar recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol | Ie | Y Cyngor llawn wedi cymeradwyo penodiad 5ed aelod lleyg ar 1 Rhagfyr 2022. Mae un sedd aelod lleyg yn parhau’n wag a byddwn yn anelu i lenwi hon yng nghyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2023 | Mawrth 2023 | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Trefniadau darparu hyfforddiant i aelodau’r Pwyllgor | Ie | Mae hon yn raglen syn parhau i esblygu. Yr aelodau wedi derbyn hyfforddiant gan yr Ombwdsmon yn Tachwedd 2022 ac ymgynghorwyr trysorlys yn Ionawr 2023. Mae cyfres o benawdau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd | Mai 2023 | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |
| | • Ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig | Na<br><br>Ie | Mae gwybodaeth wedi ei rannu yn rhanbarthol ynglŷn a’r trefniadau craffu statudol ar gyfer y CBC. Wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo y Cynllun Twf a chwblhau Cyfansoddiad y CBC bydd y model craffu rhanbarthol yn cael ei adnabod a’i gytuno gyda’r Cynghorau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y | Gorffennaf 2023<br><br>Ebrill 2023 | Iwan Evans, Swyddog Monitro.Cyngor Gwynedd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd<br><br>Dafydd L. Edwards, |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | DU i gytuno ar fanylion newidiadau amrywiol i ddeddfwriaeth y DU i gefnogi'r 4 CBC drwy Orchymyn Adran 150, gan gynnwys mewn perthynas â statws trethiant y CJC. Mae Gorchymyn A150 drafft wedi'i baratoi a bwriedir ei osod gerbron Senedd San Steffan yn gynnar yn 2023. Yn amodol ar gytundeb, byddai'r newidiadau i ddeddfwriaeth y DU yn cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. | | Swyddog Arweiniol Prosiect Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd |